GRIFFITHS, MORRIS (1721 - 1769), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: Morris Griffiths
Dyddiad geni: 1721
Dyddiad marw: 1769
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd yn 1721 ym Mhen-y-bryn, Llangybi, Sir Gaernarfon. Yr oedd yn ewythr (frawd tad) i Magdalen, priod Robert Jones, Rhoslan. Bu'n gwasanaethu William Prichard, Glasfryn Fawr, a dechreuodd gynghori. Cafodd ei erlid ar gychwyn ei yrfa. Derbyniwyd ef i athrofa Caerfyrddin yn 1760, ac urddwyd ef yn weinidog Trefgarn a Rhosycaerau, Sir Benfro, yn 1757. Bu farw 17 Hydref 1769, a'i gladdu ym mynwent Mathry. Cymysgir ef yn aml â Morris Griffiths yr emynydd. Dywed ei farwnadydd, 'Anadlodd fywyd egwan, Ynghyrau Arfon oerfan'; ar sail hynny gellir barnu mai ef, ac nid yr emynydd, yw'r Morris Griffiths a aned yn Llangybi.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd* (Trefriw 1820), 94

Ioan Griffiths, *Marwnad Morris Griffiths* (1769), 1769

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 18-9

Y Dysgedydd, 1862, 306, et seq.

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, viii, 68; ix, 9

Oriel Coleg Caerfyrddin (1909), 247

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733975

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu